**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Trawsffiniol**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017 yn y Pierhead, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol:
Russell George AC (Cadeirydd)
John Pockett (Ysgrifennydd)
Matthew O'Grady - Cymdeithas Strôc
Ruth Mitchell - Cymdeithas Fferyllol Frenhinol
Clare Lines - Bwrdd Iechyd Powys
Greg Chambers - Bwrdd Iechyd Powys
Lowri Griffiths - Cymorth Canser Macmillan
Daran Hill - Positif
Russell Goodway - Fferyllfa Gymunedol Cymru
Nesta Lloyd-Jones - Conffederasiwn GIG Cymru
Alex Williams - Swyddfa Russell George AC
Ioan Bellin - Swyddfa Simon Thomas AC
Paul Harding - Marie Curie
Victoria Yeates - Coleg Brenhinol Seiciatreg Cymru

Ymddiheuriadau:
Huw Irranca-Davies AC
Sian Tucker - Cymdeithas Sglerosis Ymledol Cymru
Adrian Osborne - Bwrdd Iechyd Powys

Croesawodd RG bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd amcanion y grŵp. Gwahoddwyd pawb a oedd yn bresennol i gyflwyno eu hunain.

Cafwyd dau gyflwyniad; y naill gan Nesta Lloyd Jones ar ran Conffederasiwn GIG Cymru a’r llall gan Russell Goodway ar ran Fferylliaeth Gymunedol Cymru. Mae copïau o'r ddau gyflwyniad ynghlwm wrth y cofnodion hyn, ac yn rhan ohonynt.

Cafwyd trafodaethau bwrdd crwn yn dilyn y naill gyflwyniad a’r llall. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y problemau y mae gwahanol bolisïau iechyd yng Nghymru a Lloegr yn eu creu i gleifion a gweithwyr proffesiynol, sy’n aml yn seiliedig ar ganfyddiad a disgwyliadau’n hytrach na’r hyn sy’n digwydd mewn gwirionedd, a'r angen i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r rhain. Tynnodd RGe sylw at y ffaith bod y cyfryngau, sydd wedi’u lleoli’n bennaf yn y DU/Llundain, yn canolbwyntio ar bolisïau/problemau/datblygiadau yn Lloegr ac nad yw cleifion a phobl Cymru yn sylweddoli bod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol. Rhoddwyd rhai enghreifftiau ond rhaid gofalu nad yw problemau’n cael eu gorliwio.

**Cam i’w gymryd: Mae angen mwy o gydbwyllgorau / gweithgorau rhwng Bae Caerdydd a San Steffan ac mae angen i’r ddwy weinyddiaeth feddwl yn fwy cydgysylltiedig.**

**Cam i’w gymryd: Mae angen sicrhau bod sefydliadau a chyrff sy'n ymwneud â darparu iechyd a gofal yng Nghymru yn gallu cyfrannu at ymgynghoriadau perthnasol yn Lloegr, yn enwedig os oes anghysonderau trawsffiniol.**

**Cam i’w gymryd: Annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno safonau cyffredin ledled Cymru, ond gan roi ystyriaeth briodol i anghenion lleol.**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Gorffennaf, y lleoliad i’w gadarnhau, ac amaethyddiaeth fydd dan sylw.

DRAFT